cartrefi gwell, dyfodol disglair
better homes, brighter future

DATGANIAD NEWYDDION
Chwefror 2010

Digwyddiad i gyflenwyr dan ei sang!

Roedd digwyddiad Tai Ceredigion yr wythnos ddiwethaf dan ei sang wrth i fwy na 200 o grefftwyr lleol ddod ynghyd i glywed am gyfleoedd adeiladu yn y dyfodol.

Mae'r gymdeithas dai ddielw newydd yn awyddus i sicrhau bod cynifer â phosibl o fusnesau lleol yn elwa ar ei rhaglen £40 miliwn i wella eiddo dros y pum mlynedd nesaf.

Cyn y digwyddiad, roedd maes parcio Tŷ Glyn Aeron yn orlawn wrth i gontractwyr lleol giwio'n amyneddgar i glywed beth oedd yn cael ei gynnig.

Mae ymrwymiad Tai Ceredigion i ddefnyddio contractwyr lleol yn rhan o'i agenda cynaladwyedd ac roedd y Cadeirydd, y Cyng. Hag Harris a'r Prif Weithredwr Steve Jones yn awyddus i annog cyflenwr lleol i gysylltu ac ystyried gwneud cais ar y cyd ar gyfer rhai o'r contractau mwyaf.

Dywedodd Steve Jones, "Mae Tai Ceredigion yn awyddus iawn i annog unrhyw fusnes lleol i ddefnyddio'r cymorth sydd ar gael gan Lywodraeth y Cynulliad i'w helpu nhw i fynd trwy'r broses gaffael swyddogol. Dyma pam rydym wedi bod yn gweithio'n lleol gyda Menter a Busnes, sy'n cynnig gweithdai tendro a chyfleoedd rhwydweithio i fusnesau bach yng Ngheredigion. Mae gennym ni agenda ar gyfer y tymor hir iawn a rhyw £136 miliwn i'w wario dros y 30 mlynedd nesaf felly rydym am helpu i ddatblygu cyflenwyr a busnesau lleol i gadw'r arian y byddwn yn ei wario yng

Ngheredigion a chyfrannu at yr economi ehangach yn lleol wrth i ni wella cartrefi presennol ac adeiladu rhai newydd.

Er bod digwyddiad yr wythnos ddiwethaf wedi gwerthu allan, bydd Tai Ceredigion yn cynnal rhagor o ddigwyddiadau yn y gwanwyn a chaiff y rhain eu hysbysebu yn y Cambrian News. Bydd manylion hefyd yn ymddangos ar wefan y sefydliad www.taiceredigon.org.uk

DIWEDD